

## **Cardiff Council Update: 31<sup>st</sup> July**

Welcome to the last update of the week from Cardiff Council, covering: the opening of the Castle Quarter Café; pop-up cycle ways coming to Cardiff; another 20 play areas to open; more community Hubs opening up; and, thanks to Llanover Hall, health workers get more scrubs.

### **Castle Quarter Café opened today**

Cardiff's exciting new dining out experience on Castle Street officially opened to the public today (Friday, July 31), welcoming visitors to the Same 'Diff – just a bit different.

The 240-seater, outdoor, covered, eating area welcomes diners to enjoy food from a wide selection of city restaurants in front of one of Cardiff's most picturesque views – its beautiful castle.

The Castle Quarter Café - which is built directly on Castle Street – is part of a wider range of measures being put in place to increase useable, outdoor space for the hospitality sector which is trying to recover from the effects of the pandemic.

The new hospitality area allows businesses – which could struggle to operate profitably indoors because of the two metre distance regulations in Wales - to trade in a safe, socially-distanced outdoor setting.

Visitors will be able to order food and drinks for delivery from a wide selection of restaurants and cafes using a QR code on site or by typing the URL address [Cardiff-castle.yoello.com](http://Cardiff-castle.yoello.com) into their smartphone and following the instructions.

The new outdoor space is open from 10am-10pm seven days a week with last orders at 8.30pm.

Deputy Leader of Cardiff Council, Cllr Sarah Merry said: “We wanted to create an attractive space which residents and visitors will love to use and one which can help local hospitality businesses get up and running again. We want as many people as possible to enjoy the new space which will give customers a stunning view of our iconic castle in the heart of the city centre. We hope it plays a major part in helping businesses in Cardiff survive the fallout from the pandemic.”

#### **How it works:**

**Open: 7 Days a week**

**Times: 10am to 10pm (last orders 8:30pm)**

**Dwell time: up to two hours**

**Capacity: 240 covers, order food from restaurants and cafes across the city centre**

**Location: Castle Street**

1. There are no advance bookings, so whenever you are ready grab your friends or family and head to Castle Street (maximum seating on a table is six). There are 240 covers arranged in tables for four or six, but if you want to come in on your own or as a couple just grab one of the tables for four.
2. You will see two separate dining areas, but they operate the same. Just pick which one you like – after all, you can sit there for up to two hours so you might as well get comfy!
3. At busy times you may need to queue but when it's your turn, the host will direct you and your party to one of the empty tables. The facilities are wheelchair and pushchair friendly. The area is flat and chairs can be removed from tables to accommodate wheelchairs and pushchairs. (please note, there are no highchairs available).
4. Take a seat, and rest assured that the café has been designed with safety and social distancing in mind and our large patio umbrellas will protect you from too much sunshine or the occasional shower. For environmental and energy supply reasons there are no heaters on site. If it's a colder day why not bring a shawl or a blanket to relax with? We are unable to provide them due to risk of contamination.
5. Hand sanitizer will be provided too and cleaning staff will be permanently based on site to keep the area clean and clear of packaging, used plates etc, although customers will be asked to take their waste to the recycling point on the way out.
6. Customer toilets are located in the clock tower car park and include a disabled toilet and baby change facilities.
7. We know you are expected to stay two metres away from friends and family outside of your "bubble", so tables have separate chairs. You are responsible for your own social distancing with friends outside your 'bubble' in accordance with your group make up.
8. To start your order, find the QR code sign on your table. Open your smartphone camera and scan the code – alternatively type [cardiff-castle.yoello.com](http://cardiff-castle.yoello.com) into your web browser and you can make your order that way.

9. Castle Quarter Café will be participating in Track and Trace. A Track and Trace button will appear when you use the URL [Cardiff-castle.yoello.com](http://Cardiff-castle.yoello.com) or scan the table QR to access Yoello. Customers will need to click on that and fill out the short form before they make their first order. This will enable us to contact you and your group about any positive COVID-19 results which may affect you.
10. Here's the fun bit! With plenty of the city's favourite eateries involved, you will be spoilt for choice – so whatever tickles your taste buds, take your time to browse the different venues and menus on your screen.
11. Once you have chosen what menu you would like to order from, please take note of the wait time, and pay with a credit/debit card once you are happy. Though don't forget, if members of your party order from different businesses the orders will be processed separately and may arrive at different times.
12. Sit back and relax until your food and drinks are delivered directly to your table. Everything you need will arrive with your order. All boxes, drinkware and cutlery will be compostable, so could be wooden or starch based.
13. There is no minimum spend unless you want to order alcohol. If you do want alcohol you will need to spend at least £10 on food. So if you just fancy a coffee grab a seat and go ahead, but remember, the area is designed to try and help businesses make enough money to survive the fallout around COVID-19 – so spend a bit more if you can afford to and feel good about helping your favourite restaurant through the pandemic.
14. Once you have finished, or your two hours is up, simply gather up your rubbish and place it in the recycling bins on your way out.

### **Top Tips!**

1. As you have a two-hour timeslot, it's recommended that you order all food and drinks at the beginning in case you run out of time later on – and if you would like to order alcoholic drinks your party will need to make a £10 minimum food order and they will be operating a 'Challenge 25' policy.
2. The wait time for orders will be displayed by the app and some may have longer times than others, so if you are in a hurry try to choose a restaurant which can serve you in the time that suits you.
3. Ordering meals from different menus can be great if your party has varied tastes, but if you order and pay separately, they will arrive at different times.

So why not order from the same place, and pay in one transaction? That way you can all eat together.

4. We hope you have a great visit, but if there are any problems with your food please refer complaints back to the restaurant that you ordered from. Restaurant contact details will be provided via the Yoello App so if you wish to discuss anything or make a complaint they should be referred to the responsible restaurant.

**These are the restaurants and cafes currently signed up to Yoello but more are being added all the time**

Bute & Co Coffee House  
Bwyta Bwyd Bombai (3Bs)  
Dusty Knuckle  
FABurgers Ltd  
The Grazing Shed  
Heavenly Desserts  
Keralan Caravan  
Marco Pierre White's Steakhouse Bar & Grill  
Mother Nature Cafe  
Nata & Co  
Wally's Deli & Kaffeehaus  
Wok to Walk  
Zerodegrees Cardiff

**New pop-up cycleways on their way as part of the city's recovery plan**

Cardiff – recently voted the UK's best cycling city – is installing new pop-up cycleways.

The new cycleways are planned to be installed by the autumn to provide safer, mostly-segregated routes to enable people to travel by bike on some of Cardiff's busiest roads.

The two routes - the 'Cross City' and 'Bay Loop' cycleways – are being brought forward as part of the Council's ongoing COVID Recovery plans and are in line with the cycling vision set out in the Council's Transport White Paper.

Cllr Caro Wild, Cabinet Member for Strategic Planning and Transport said: "Traffic on our roads has reduced dramatically now that a number of businesses and organisations are opting to let their staff remain working from home.

“Current traffic levels are at 66% of pre-lockdown numbers, with the traffic flow in the city centre lower still at 50%. While the traffic levels have reduced, the use of the nextbike scheme has increased significantly during lockdown, with over 14,000 new customers, which clocked up an impressive 114,383 rentals from March to June.

“With public transport providers running at reduced capacity lots of people are now choosing to walk and cycle in Cardiff. This is great news, great for people’s health and great for the environment. We want to ensure that anyone who is able to cycle can do so in a safer and more attractive way.

“We know there are people new to cycling, including very young people, and we have to do everything in our power to ensure these people are as safe as possible.”

Read more here:

<https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24463.html>

## **Heath Park among 20 more Cardiff play areas to re-open**

A further 20 children’s play areas in Cardiff, including Heath Park, are to be re-opened. 50 sites across the city are already open.

Play areas are being opened on phased basis, following a safety first approach and with a view to ensuring that children across the city have some play provision in their local area as quickly as possible.

14 play areas will open from Saturday (1<sup>st</sup> August). They are:

Hamadryad Park (**Butetown**); Emerson Close (**Caerau**); Rhydlarfer (**Creigiau and St Fagans**); Wilson Road Toddler (**Ely**); Wilson Road Junior (**Ely**); Heath Park (**Heath**); Hailey Park Junior (**Llandaff North**); Hailey Park Toddler (**Llandaff North**); Bryn Glas Junior (**Llanishen**); Bryn Glas Toddler (**Llanishen**); Rumney Recreation Ground (**Llanrumney**); Dispenser Gardens Junior (**Riverside**); Dispenser Gardens Toddler (**Riverside**); Greenway Road (**Rumney**).

6 more play areas will open from Monday (3<sup>rd</sup> August). They are:

Britannia Park (**Butetown**); Heol y Barcud (**Llanishen**); Hammond Way (**Penylan**); Garth Newydd (**Pentyrch**); Horwood Close (**Splott**); Ironbridge Road (**Whitchurch & Tongwynlais**).

In line with Welsh Government guidance and health and safety legislation all sites have gone through a Covid-19 risk assessment and the equipment and safety

surfaces have been inspected by a qualified playground inspector, prior to re-opening.

The 50 play areas which are already open are:

Adamscroft open space (**Adamsdown**); Adamsdown Square (**Adamsdown**); Belmont Walk (**Butetown**); Craiglee Drive (**Butetown**); Hodges Square (**Butetown**); Loudon Square (**Butetown**); Windsor Esplanade (**Butetown**); Emblem Close (**Caerau**); Heol Homfrey (**Careau**); Trelai Park (**Caerau**); Jubilee Park (**Canton**); Sanatorium Road – Toddler (**Canton**); Bute Park Play Trail (**Cathays**); Cogan Gardens (**Cathays**); Maindy Park (**Cathays**); Green Farm Road (**Ely**); Beechley Road (**Fairwater**); Chorley Close (**Fairwater**); Whitland Crescent (**Fairwater**); Maitland Park (**Gabalfa**); Maitland Road – agility area (**Gabalfa**); Sevenoaks Park (**Grangetown**); The Marl – Toddler (**Grangetown**); The Marl – Junior (**Grangetown**); Heol y Delyn (**Lisvane**); Mill Heath Drive (**Lisvane**); St Martin's Crescent – Toddler (**Llanishen**); St Martin's Crescent – Junior (**Llanishen**); Watkin's Square (**Llanishen**); Coed y Gores (**Pentwyn**); Chapelwood (**Pentwyn**); Parc Coed y Nant (**Pentwyn**); Waun Fach (**Pentwyn**); Garth Olwg (**Pentyrch**); Penuel Road (**Pentyrch**); Cyncoed Gardens (**Penylan**); Sovereign Chase (**Penylan**); Shelley Gardens (**Plasnewydd**); Butterfield Park (**Pontprenau / St Mellons**); Cwm Farm Junior (**Radyr**); Cym Farm Toddler (**Radyr**); Fisherhill Way (**Radyr / Morganstown**); Wyndham Street (**Riverside**); Beaufort Square (**Splott**); Splott Park (**Splott**); Tremorfa Park (**Splott**); Wilkinson Close (**Splott**); Heol Maes Eirwg (**Trowbridge**); Heritage Park (**Trowbridge**); Hollybush (**Whitchurch & Tongwynlais**)

Read more here:

<https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24476.html>

## More community Hubs opening up

Rhiwbina Library and Fairwater Hub open again on Monday August 3 on an appointment only basis.

Green recycling & food waste bags can be collected without an appointment.

See details here:

<https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/hubs-and-housing-offices/Pages/hubs.aspx>

 029 2087 1071

 [advicehub@cardiff.gov.uk](mailto:advicehub@cardiff.gov.uk)

[@cdflibraries](#)

## **No scrubs? Llanover Hall to the rescue**

A community project to produce uniform for health workers during the coronavirus crisis has seen staff and volunteers from a community learning and arts venue in the city stitching together their time, skills and expertise to support the NHS.

Tutors, learners and centre staff at Llanover Hall Arts Centre in Canton were joined by members of the public to form a 45-strong operation making scrubs for nurses, doctors and other NHS staff.

The initiative came about after Ysgol Plasmawr Head of Technology, Nia Clements, contacted Welsh Government to offer help for the COVID-19 effort and appealed for volunteers to support the project on Facebook. Llanover Hall centre manager, John Hobson, and admin assistant, Gaynor Robinson, responded, offering the centre as one of the hubs for making the uniforms.

Over recent weeks, the team have been busy using their sewing skills to produce 591 tunics with material provided by Alexandra Workwear and funded by Welsh Government. The Llanover Hall Charitable Trust, and donations from two generous supporters, Helen Lloyd Jones and Margaret le Grice, provided funding to the centre for three new overlocking sewing machines, ironing boards and irons.

Sewing tutor from the Council's Learning for Life community learning programme, Ceri Ring, supported the volunteers with technical details and instructions at the Llanover Hall workstations while other volunteers produced the tunics from home.

Read more here:

<https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24458.html>

## **Diweddariad Cyngor Caerdydd: 31 Gorffennaf**

Croeso i ddiweddariad olaf yr wythnos gan Gyngor Caerdydd, sy'n cynnwys: agor Caffi Cwr y Castell; beicffyrdd dros dro yn dod i Gaerdydd; 20 ardal chwarae arall i ailagor; mwy o Hybiau cymunedol yn ailagor; a, diolch i Neuadd Llanofar, mwy o sgryps i weithwyr iechyd.

## **Caffi Cwr y Castell wedi agor heddiw**

Heddiw (dydd Gwener, 31 Gorffennaf), oedd yr agoriad swyddogol i'r cyhoedd ar brofiad bwyta newydd cyffrous ar Stryd y Castell, Caerdydd, gan groesawu ymwelwyr i'r Un Ddinas – ond bod pethau ychydig yn wahanol.

Mae'r ardal fwyta awyr agored â 240 o seddi dan orchudd yn croesawu pobl i fwynhau bwyd o ddetholiad eang o fwytai'r ddinas a hynny o flaen un o olygfeydd mwyaf deniadol Caerdydd – ei chastell hardd.

Mae Caffi Cwr y Castell - a godwyd ar Stryd y Castell ei hun - yn rhan o ystod ehangach o fesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i gynyddu mannau awyr agored y gellir eu defnyddio gan y sector lletygarwch sy'n ceisio adfer yn dilyn effeithiau'r pandemig.

Mae'r ardal letygarwch newydd yn galluogi busnesau - a allai gael trafferth gwneud elw dan do oherwydd y rheoliadau cadw pellter dau fetr sydd yng Nghymru - i fasnachu mewn lleoliadau awyr agored diogel sy'n caniatáu cadw pellter cymdeithasol.

Bydd ymwelwyr yn gallu archebu bwyd a diodydd i'w danfon o ddetholiad eang o fwytai a chaffis gan ddefnyddio cod QR ar y safle neu drwy deipio'r cyfeiriad URL [Cardiff-castle.yoello.com](http://Cardiff-castle.yoello.com) i'w ffonau a dilyn y cyfarwyddiadau.

Mae'r man awyr agored newydd yn agor o 10am tan 10pm saith diwrnod yr wythnos gyda'r archebion olaf am 8.30pm.

Dywedodd y Cyngorydd Sarah Merry, Dirprwy Arweinydd Cyngor Caerdydd: "Roedden am greu man deniadol y bydd preswylwyr ac ymwelwyr wrth eu bodd yn ei ddefnyddio a man a all helpu busnesau lletygarwch lleol i ddechrau cynnal eu busnes unwaith eto. Rydym am i gynifer o bobl â phosibl i fwynhau'r ardal newydd a fydd yn cynnig golwg drawiadol i gwsmeriaid o'n castell eiconig yng nghanol y ddinas. Rydym yn gobeithio y bydd yn chwarae rhan bwysig yn helpu busnesau yng Nghaerdydd i oroesi canlyniadau'r pandemig."

### **Sut mae'n gweithio:**

**Ar agor: 7 diwrnod yr wythnos**

**Amseroedd: 10am-10pm (archebion olaf 8:30pm)**

**Amser aros: hyd at ddwy awr**

**Nifer y lleoedd: 240 o seddi, archebu bwyd o fwytai a chaffis yng nghanol y ddinas**

**Lleoliad: Stryd y Castell**

15. Nid oes modd archebu ymlaen llaw, felly pryd bynnag y byddwch chi'n barod, bachwch eich ffrindiau neu'ch teulu a bant â chi i Stryd y Castell (uchafswm nifer y seddi ar un bwrdd yw chwech). Mae 240 o seddi wedi'u trefnu ar batrwm byrddau i bedwar neu chwech, ond os ydych am ddod ar eich pen eich hun neu fel cwpl, ewch i un o'r byrddau i bedwar.



16. Byddwch yn gweld dwy ardal fwyta ar wahân, ond maent yn gweithredu yn yr un modd. Dewiswch pa un bynnag sy'n mynd â'ch bryd - rydych chi'n gallu eistedd yno am hyd at ddwy awr felly man a man i chi fod yn gyffyrddus!
17. Ar adegau prysur, efallai y bydd angen i chi giwio ond pan ddaw eich tro, fe fydd tywysydd yn eich cyfeirio chi a'ch criw at un o'r byrddau gwag. Mae'r cyfleusterau'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn a chadeiriau gwthio. Mae'r ardal yn wastad a gellir symud cadeiriau i gynnwys cadeiriau olwyn a choetshys babis (sylwer nad oes cadeiriau uchel ar gael).
18. Cymerwch sedd, a gallwch fod yn dawel eich meddwl bod y caffi wedi'i ddylunio i fod yn ddiogel ac i alluogi cadw pellter cymdeithasol. Bydd yr ymbarelau patio mawr yn eich diogelu rhag yr elfennau - boed law neu hindda. Am resymau amgylcheddol a chyflenwi ynni, nid oes unrhyw wresogyddion ar y safle. Os yw hi'n ddiwrnod oerach, beth am ddod â siôl neu flanced i ymlacio? Ni allwn gynnig rhai oherwydd perygl halogiad.
19. Bydd diheintydd dwylo yn cael ei ddarparu hefyd a bydd staff glanhau wedi'u lleoli'n barhaol ar y safle i gadw'r ardal yn lân ac yn glir o ddeunyddiau pacio, platiau wedi'u defnyddio ac ati, er y gofynnir i gwsmeriaid fynd â'u gwastraff i'r man ailgylchu ar y ffordd allan.
20. Hefyd mae toiledau i gwsmeriaid ym maes parcio tŵr y cloc sy'n cynnwys toiled i'r anabl a chyfleusterau newid cewynau.
21. Rydym yn gwybod bod disgwyl i chi aros ddau fetr i ffwrdd oddi wrth ffrindiau ac aelodau'r teulu y tu allan i'ch "swigen", felly mae cadeiriau ar wahân wrth y byrddau. Chi sy'n gyfrifol am gadw pellter cymdeithasol oddi wrth eich ffrindiau y tu allan i'ch 'swigen', yn unol â chyfansoddiad eich grŵp.
22. I gychwyn eich archeb, chwiliwch am arwydd y cod QR ar eich bwrdd. Agorwch gamera eich ffôn a sganiwch y cod – neu deipiwch [cardiff-castle.yoello.com](https://cardiff-castle.yoello.com) i'ch porwr gwe a gallwch archebu yn y dull hwnnw.
23. Bydd Caffi Cwr y Castell yn rhan o'r system Tracio ac Olrhain. Bydd botwm Tracio ac Olrhain yn ymddangos pan fyddwch yn defnyddio'r URL [cardiff-castle.yoello.com](https://cardiff-castle.yoello.com) neu wrth i chi sganio cod QR y bwrdd i gael mynediad i Yoello. Bydd angen i gwsmeriaid glicio ar hwnnw a llenwi ffurflen fer cyn gwneud eu harcheb gyntaf. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i ni gysylltu â chi a'ch grŵp ynglŷn ag unrhyw ganlyniadau COVID-19 positif a allai effeithio arnoch.
24. Dyma lle mae'r hwyl yn dechrau o ddifri! Gyda chynifer o hoff fannau bwyta'r ddinas yn rhan o'r cynllun, bydd y dewis bron yn ddi-ben-draw – felly beth bynnag

sy'n tynnu dŵr i'ch dannedd, bydd rhywbeth yn siŵr o blesio o'r lleoliadau a'r bwydlenni gwahanol ar eich sgrin.

25. Ar ôl i chi ddewis pa fwydlen yr hoffech archebu ohoni, nodwch yr amser aros, a thalwch gyda cherdyn credyd/debyd pan fyddwch yn barod. Cofiwch: os bydd aelodau o'ch parti yn archebu o wahanol fusnesau, bydd yr archebion yn cael eu prosesu ar wahân a gallant gyrraedd ar adegau gwahanol.
26. Eisteddwch ac ymlaciwch tan i'ch bwyd a'ch diodydd gyrraedd eich bwrdd. Bydd popeth sydd ei angen arnoch yn cyrraedd gyda'ch archeb. Bydd modd compostio'r holl flychau, y cynwysyddion diodydd a'r cyllyll a'r ffyr, felly gallen nhw fod o bren neu wedi'u seilio ar startsh.
27. Nid oes lleiafswm gwariant oni bai eich bod am archebu alcohol. Os hoffech gael alcohol bydd angen i chi wario £10 o leiaf ar fwyd. Felly, os bydd awydd coffi arnoch, bachwch sedd ac ewch amdani, ond cofiwch, mae'r ardal wedi ei chynllunio i geisio helpu busnesau i wneud digon o arian i oroesi canlyniadau COVID-19 – felly gwariwch ychydig yn fwy os gallwch chi ei fforddio a themlo'n dda am helpu eich hoff fwyty drwy'r pandemig.
28. Wedi i chi orffen gloddesta, neu ar ôl i'ch dwy awr ddod i ben, casglwch eich sbwriel a'i roi yn y biniau ailgylchu ar eich ffordd allan.

## **Cynghorion Craff!**

5. Gan fod gennych slot o ddwy awr, argymhellir eich bod yn archebu'r bwyd a'r diodydd i gyd ar y dechrau, rhag ofn na fydd digon o amser gennych yn ddiweddarach – ac os byddwch am archebu diodydd alcoholig, bydd angen i'ch parti archebu gwerth o leiaf £10 o fwyd a bydd polisi 'Herio 25' ar waith.
6. Bydd amser aros am archebion yn cael ei arddangos yn yr app ac efallai y bydd amseroedd aros hirach i rai nag eraill, felly os ydych ar frys, ceisiwch ddewis bwyty a all weini o fewn yr amser sy'n addas i chi.
7. Gall archebu prydau o wahanol fwydlenni fod yn wych os oes gan eich parti chwaeth wahanol, ond os byddwch yn archebu ac yn talu ar wahân, byddant yn cyrraedd ar wahanol adegau. Felly beth am archebu o'r un lle, a thalu mewn un taliad? Wedyn gall pawb fwyta ar yr un pryd.
8. Gobeithio y cewch ymweliad gwych, ond os bydd unrhyw broblemau gyda'ch bwyd, dylech gyfeirio cwynion yn ôl i'r bwyty yr archeboch chi ganddo. Darperir manylion cyswllt y bwyty drwy app Yoello, felly os ydych yn

dymuno trafod unrhyw beth neu wneud cwyn dylid eu cyfeirio at y bwyty dan sylw.

### **Dyma'r bwytai a'r caffis sydd wedi cofrestru â Yoello ar hyn o bryd, ond mae mwya yn cael eu hychwanegu drwy'r amser**

Bute & Co Coffee House  
Bwyta Bwyd Bombai (3B's)  
Dusty Knuckle  
FABurgers Ltd  
The Grazing Shed  
Heavenly Desserts  
Keralan Caravan  
Marco Pierre White Steakhouse Bar & Grill  
Mother Nature Cafe  
Nata & Co  
Wally's Deli & Kaffeehaus  
Wok to Walk  
Zerodegrees Cardiff

### **Beicffyrdd newydd dros dro ar y gweill yn rhan o gynllun adfer y ddinas**

Mae Caerdydd - a bleidleisiwyd y ddinas orau yn y DU i feicio ynnddi yn ddiweddar - yn gosod beicffyrdd newydd dros dro.

Bwriedir gosod y beicffyrdd newydd erbyn yr hydref i gynnig llwybrau diogelach, wedi eu gwahanu, i alluogi pobl i deithio ar feic ar rai o ffydd prysuraf Caerdydd.

Mae'r ddau lwybr - y feicffordd 'Traws-ddinas' a'r feicffordd 'Cylch y Bae' - yn cael eu datblygu'n gynt yn rhan o gynlluniau adfer COVID y Cyngor ac maent yn cydweddu â'r weledigaeth beicio a nodwyd ym Mhapur Gwyn Trafnidiaeth y Cyngor.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth, y Cynghorydd Caro Wild: "Mae traffig ar ein ffyrdd wedi lleihau'n ddramatig nawr bod nifer o fusnesau a sefydliadau yn dewis gadael i'w staff barhau i weithio gartref.

"Mae'r lefelau traffig presennol ar 66% o'r rhai cyn y cyfnod cloi, gyda'r llif traffig yng nghanol y ddinas yn is o hyd ar 50%. Tra bod y lefelau traffig wedi gostwng, mae'r defnydd o'r cynllun 'nextbike' wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y cyfnod cloi, gyda dros 14,000 o gwsmeriaid newydd, a oedd yn cynnwys 114,383 o sesiynau llogi rhwng mis Mawrth a mis Mehefin, sy'n drawiadol.

"Gyda darparwyr trafniadaeth gyhoeddus yn rhedeg ar lai o gapasiti, mae llawer o bobl bellach yn dewis cerdded a beicio yng Nghaerdydd. Mae hyn yn newyddion gwych, yn wych i iechyd pobl ac yn wych i'r amgylchedd. Rydym eisiau sicrhau y gall unrhyw un sy'n gallu beicio wneud hynny mewn modd mwy diogel ac atyniadol.

"Rydyn ni'n gwybod bod yna rai pobl sy'n newydd i feicio, gan gynnwys pobl ifanc iawn, ac mae'n rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod y bobl hyn mor ddiogel â phosibl."

Darllenwch fwy yma:

<https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24465.html>

## **Parc y Mynydd Bychan ymysg y 20 ardal chwarae ychwanegol i ailagor yng Nghaerdydd**

Bydd 20 yn fwy o ardaloedd chwarae plant yng Nghaerdydd yn ailagor, gan gynnwys Parc y Mynydd Bychan. Mae 50 safle eisoes wedi eu hagor ledled y ddinas.

Mae'r ardaloedd chwarae yn cael eu hailagor yn raddol, gan ddilyn ymagwedd diogelwch yn gyntaf a gyda'r nod o sicrhau bod plant ledled y ddinas yn gallu cael rhyw fath o ddarpariaeth chwarae yn eu hardal leol cyn gynted â phosibl.

Bydd 14 ardal chwarae yn ailagor o ddydd Sadwrn (1 Awst). Dyma nhw:

Parc Hamadryad (**Butetown**); Clos Emerson (**Caerau**); Rhydlafar (**Creigiau a Sain Ffagan**); Wilson Road i Blant bach (**Trelái**); Wilson Road i Blant Iau (**Trelái**); Parc y Mynydd Bychan (**y Mynydd Bychan**); Parc Hailey i Blant Bach (**Ystum Taf**); Parc Hailey i Blant Bach (**Ystum Taf**); Bryn Glas i Blant Iau (**Llanisien**); Bryn Glas i Blant Bach (**Llanisien**); Maes Hamdden Tredelerch (**Llanrhymni**); Gerddi Dispenser i Blant Iau (**Glan-yr-afon**); Gerddi Dispenser i Blant Bach (**Glan-yr-afon**); Ffordd Greenway (**Tredelerch**).

Bydd 6 ardal chwarae arall yn agor o ddydd Llun (3 Awst) Dyma nhw:

Parc Britannia (**Butetown**); Heol y Barcud (**Llanisien**); Hammond Way (**Pen-y-lan**); Garth Newydd (**Pentyrch**); Clos Horwood (**Sblot**); Ironbridge Road (**yr Eglwys Newydd a Thongwynlais**).

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth iechyd a diogelwch mae pob safle wedi mynd drwy asesiad risg Covid-19 ac mae arwynebau'r offer a'r arwynebau diogelwch wedi cael eu harchwilio gan arolygydd maes chwarae, cyn eu hail-agor.

Y 50 man chwarae sydd eisoes ar agor yw:

Gofod agored Adamscroft (**Adamsdown**); Sgwâr Adamsdown (**Adamsdown**); Belmont Walk (**Butetown**); Craiglee Drive (**Butetown**); Sgwâr Hodges (**Butetown**); Sgwâr Loudon (**Butetown**); Windsor Esplanade (**Butetown**); Clos Emblem (**Caerau**); Heol Homfrey (**Careau**); Parc Trelái (**Caerau**); Parc Jiwbili **Treganna**; Sanatorium Road i Blant Bach (**Treganna**); Llwybr chwarae Parc Bute (**Cathays**); Gerddi Cogan (**Cathays**); Parc Maendy (**Cathays**); Green Farm Road (**Trelái**); Beechley Road (**y Tyllgoed**); Clos Chorley (**y Tyllgoed**); Cilgant Hendy-gwyn (**y Tyllgoed**); Maitland Park (**Gabalfa**); Maitland Road – ardal ystwythder (**Gabalfa**); Parc Sevenoaks (**Grangetown**); Y Marl i Blant Bach (**Grangetown**); Y Marl i Blant Iau (**Grangetown**); Heol y Delyn (**Llys-faen**); Mill Heath Drive (**Llys-faen**); Cilgant Sant Martin i Blant Bach (**Llanisien**); Cilgant Sant Martin i Blant Iau (**Llanisien**); Sgwâr Watkin (**Llanisien**); Coed y Gores (**Pentwyn**); Chapelwood (**Pentwyn**); Parc Coed y Nant (**Pentwyn**); Waun Fach (**Pentwyn**); Garth Olwg (**Pentyrch**); Ffordd Penuel (**Pentyrch**); Gerddi Cyncoed (**Penylan**); Sovereign Chase (**Penylan**); Gerddi Shelley (**Plasnewydd**); Parc Butterfield (**Pontprennau/Llaneirwg**); Cwm Farm i Blant Iau (**Radyr**); Cwm Farm i Blant Bach (**Radyr**); Fisherhill Way (**Radur/Pentre-poeth**); Wyndham Street (**Glan-yr-afon**); Sgwâr Beaufort (**Sblot**); Parc Sblot (**Sblot**); Parc Tremorfa (**Sblot**); Clos Wilkinson (**Sblot**); Heol Maes Eirwg (**Trowbridge**); Parc Treftadaeth (**Trowbridge**); Hollybush (**yr Eglwys Newydd a Thongwynlais**)

Darllenwch fwy yma:

<https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24477.html>

## Mwy o Hybiau cymunedol yn ailagor

Bydd Llyfrgell Rhiwbeina a Hyb Y Tyllgoed yn agor heddiw ar sail apwyntiad yn uni.

Gellir casglu bagiau gwastraff bwyd ac ailgylchu heb drefnu apwyntiad.

Manylion yma:

<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswilydd/hybiau-a-swyddfeydd-tai/Pages/Hybiau.aspx>

 029 2087 1071

 [hybcynghori@caerdydd.gov.uk](mailto:hybcynghori@caerdydd.gov.uk)

[@cdfibraries](#)

**Dim sgrýbs? Neuadd Llanofér yn achub y dydd**

Mae gweithwyr a gwirfoddolwyr wedi bod yn gwnïo gyda'r gorau mewn project cymunedol i greu dillad gwaith ar gyfer gweithwyr ieched yn ystod argyfwng y Coronafeirws. Mae'r staff a'u cynorthwyyr o'r ganolfan dysgu cymunedol a'r celfyddydau wedi rhoi eu hamser, eu sgiliau a'u harbenigedd ar gyfer y project.

Ymunodd aelodau o'r cyhoedd â thiworiaid, dysgwyr a staff Canolfan Gelfyddydau Neuadd Llanofar yn Nhreganna i ffurfio tîm o 45 o bobl i wneud sgrys ar gyfer nyrsys, meddygon a staff eraill y GIG.

Daeth y fenter at ei gilydd ar ôl i Bennaeth Technoleg Ysgol Plasmawr, Nia Clements, gysylltu â Llywodraeth Cymru i gynnig cymorth i'r ymdrech yn erbyn COVID-19 ac apeliodd am wirfoddolwyr i gefnogi'r project ar Facebook. Ymatebodd Rheolwr Canolfan Neuadd Llanofar, John Hobson, a'r cynorthwy-ydd gweinyddol, Gaynor Robinson, gan gynnig y ganolfan fel un o'r hybiau i wneud y gwisgoedd.

Dros yr wythnosau diwethaf, mae'r tîm wedi bod yn brysur yn defnyddio eu sgiliau gwnïo i gynhyrchu 591 o diwnigau gyda defnydd a ddarparwyd gan Alexandra Workwear ac a'riannwyd gan Lywodraeth Cymru. Gan ddefnyddio arian gan Ymddiriedolaeth Elusennol Neuadd Llanofar, a rhoddion gan ddwy gefnogwraig hael, Helen Lloyd Jones a Margaret le Grice, prynodd y ganolfan dri pheiriant gwnïo gorgloi newydd, a byrddau a haearnau smwddio.

Bu'r tiwtor gwnïo o raglen Dysgu am Oes y Cyngor, Ceri Ring, yn cefnogi'r gwirfoddolwyr drwy roi manylion technegol a chyfarwyddiadau wrth eu gweithfannau yn Neuadd Llanofar tra bod gwirfoddolwyr eraill yn cynhyrchu'r tiwnigau o gartref.

Darllenwch fwy yma:

<https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24459.html>